

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

### Cofnodion Cyfarfod y Fforwm Derbyniadau a gynhaliwyd yn y Swyddfeydd Dinesig ddydd Mercher 15 Mawrth 2017

#### **Cynrychiolwyr yr ALI**

Mr R Davies Rheolwr Grŵp, Busnes, Strategaeth a Pherfformiad  
Mrs M Treharne Swyddog Cymorth Ysgolion, Cymorth i Ddysgwyr

#### **Cynrychiolwyr Ysgolion**

Mr J Tarran Y Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Archddiacon  
John Lewis

#### **Cynrychiolwyr Llywodraethwyr**

Mr W Bond Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Heronsbridge

#### **ALI arall**

Mrs Claire Kristy, RhCT

#### **Ysgrifennydd i'r Fforwm**

Ms M Jones

#### **1. Croeso**

Rhoddodd RD groeso i Owen Shepherd i'r cyfarfod.

#### **2. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd C Smith, Mr A Slade, Mrs S Pilcher, Mrs R Dixon a Mrs H Ridout. Ni chafwyd ymddiheuriadau gan Mrs A Keller.

#### **3. Proffil Asesu Bregusrwydd (VAP) Owen Shepherd.**

Esboniodd OS wrth aelodau'r fforwm sut mae'r broses (VAP) yn gweithio a nododd mai dyma'r dull o nodi anawsterau'n gynnar a ddefnyddir ym Mhen-y-bont ar Ogwr i nodi, olrhain a chyflenwi cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc oed ysgol sydd mewn perygl o ddod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sydd yn NEET.

Nododd OS fod y broses hon ar hyn o bryd dim ond yn cael ei chynnal yn y sector uwchradd, nid oes cyllid Ewropeaidd ar gael ar hyn o bryd i gyllido gweithwyr arweiniol yn y sector cynradd. Ar hyn o bryd mae 15 o weithwyr arweiniol ar draws yr ysgolion uwchradd a gynhelir ochr yn ochr ag asiantaethau sy'n cynnwys Gyrfa Cymru, Coleg Penybont ac Ysgolion Uwchradd.

Nododd OS eu bod wedi cynnal cynllun peilot yn y sector cynradd a oedd yn cynnwys disgyblion cyfnod allweddol 2 Ysgol Gynradd y Llidiart. Cyflwynodd OS ddata disgyblion i'r aelodau ar ffurf siart sy'n dangos sut mae'r data yn deillio. Esboniodd OS wrth yr aelodau fod y data hwn yn helpu staff ac asiantaethau eraill drwy roi arwyddion cynnar iddynt nodi disgyblion sy'n tangyflawni, disgyblion ag anawsterau ymddygiad ac mae hefyd yn darparu'r dulliau cymorth sydd ar waith i gynorthwyo rhieni a phlant agored i niwed y mae angen cymorth arnynt fwyaf.

Esboniodd OS wrth yr aelodau fod gan Lywodraeth Cymru 3 phrif gategori yn y broses hon, sef:-

- Presenoldeb
- Ymddygiad
- Cyrhaeddiad

Nododd JT ei fod yn gallu gweld manteision yr asesiad VAP i staff a disgyblion a gofynnodd i OS a ellid treialu hyn yn ei ysgol. OS i drefnu gyda JT i'r asesiad gael ei dreialu gyda disgyblion B6.

#### **4. Cofnodion**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 1 Rhagfyr 2016 yn gofnod cywir.

Trafodwyd y materion canlynol.

##### **Eitem 12 –**

Nododd RD fod y 'Prosiect Trawsnewid Digidol' wedi nodi angen dybryd am 'Gronfa Ddata Derbyniadau' gyda chapasiti ar-lein ac mae hyn wedi mynd allan i dendr yn ddiweddar. Mae proses dderbyn ar-lein yn flaenoriaeth i Ben-y-bont ar Ogwr oherwydd ar hyn o bryd mae'r holl wybodaeth am ddisgyblion yn cael ei mewnbynnu â llaw. Nododd RD fod cymhlethdodau o ran cael y data o SIMS am nad oes gan Ben-y-bont ar Ogwr Capita 1 ac nid oes gennym y cyfalaf i brynu'r pecyn hwn. Rhoddodd RD wybod i'r aelodau ein bod wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y posibilrwydd o 'gronfa ddata annibynnol' gyda chapasiti ar-lein a byddai'n disgwyl i'r system fod yn weithredol yn 2018.

#### **5 Adroddiad i'r ymgynghoriad ar Bolisi Derbyn Drafft yr ALI 2018/19**

Cafodd e-bost ei anfon at bob aelod o'r Fforwm ar 15 Rhagfyr 2016 gan argymhell y newidiadau canlynol i'r polisi.

- **Tudalennau 7, 8 a 9:** dileu Trefniant Arbennig 1 sy'n ymwneud â'r trefniadau pontio ar gyfer dalgylchoedd Ysgol Gynradd Maes yr Haul ac Ysgol Gynradd Trelales.

Cytunwyd ar y trefniadau pontio yn wreiddiol am gyfnod o 5 mlynedd o fis Medi 2013 ac rydym bellach yn argymhell bod y trefniadau yn dod i ben fel y cynlluniwyd yn wreiddiol.

- **Tudalennau 6, 8 a 10:** dileu'r geiriad ar gyfer torri'r ddadl yn sgil pryderon bod hyn yn gorgymhlethu'r sefyllfa ar gyfer y cyhoedd pan, yn ymarferol, na ddisgwylir y bydd hyn byth yn ofynnol ym Mhen-y-bont ar Ogwr
- Gwnaeth JT ymdrin â phwynt yn y polisi yn Adran A sy'n nodi 'mae rhagor o wybodaeth am dderbyn i ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol wedi'i nodi yn Adran V'. Dylai hyn nodi 'Adran W' sydd wedi'i ddiwygio yn y polisi.

Gofynnodd WB ar ran y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Croesty bod y geiriau 'yn amodol ar y meini prawf gormod o geisiadau' yn cael eu hychwanegu ar ôl uchafswm o 30 o ddisgyblion. Esboniodd RD a MT mai dim ond nifer o eithriadau a ganiateir yn y rheoliadau i allu derbyn disgyblion dros y terfyn maint dosbarth dros o 30 fel:

- Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a fu'n Derbyn Gofal yn flaenorol
- Ysgol a enwyd ar 'Ddatganiad anghenion addysgol arbennig'
- Disgyblion a dderbynnir drwy apêl

Holodd JT a allai brawddeg gael ei mewnosod yn y polisi derbyniadau yn datgan yr eithriadau uchod a ganiateir. Nododd RD y gallai brawddeg gael ei mewnosod ym mholisi derbyn 2018-19. RD i roi'r diweddaraf yn y cyfarfod nesaf.

Gwnaeth pob un o aelodau'r fforwm gymeradwyo'r gwelliannau uchod.

#### **6 Llunio barn derfynol y Fforwm ar Bolisi Derbyn yr ALI 2018/19**

Cafodd y Polisi Derbyn drafft ar gyfer 2018/19 ei gymeradwyo gan y Fforwm Derbyn a byddai'n cael ei anfon at y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim - Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Mr Lindsay Harvey) erbyn 15 Ebrill i'w gymeradwyo. MJ i anfon y polisi terfynol ar gyfer 2018/19 i Lywodraeth Cymru. Nododd RD fod y polisi derbyn ar gyfer 2019/20 i'w adolygu yng nghyfarfod y fforwm ym mis Hydref.

## **7. Rhaglen Adleoli Ffoaduriaid Syria**

Rhoddodd RD wybod i'r aelodau y bydd y 3<sup>ydd</sup> teulu o Syria yn cael ei adleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr cyn bo hir. Gofynnodd CK i RD a allai mwy o deuluoedd gael eu hadleoli i ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Nododd RD fod disgwyliad yn y dyfodol y bydd pobl ifanc ar eu pen eu hunain yn cyrraedd. RD i barhau i roi'r diweddaraf i aelodau. Gofynnodd RD i CK sut mae'r broses o adleoli teuluoedd ffoaduriaid yn gweithio yn RhCT. Nododd CK fod y prosiect yn llwyddiannus ac maent wedi derbyn 5/6 o deuluoedd hyd yma.

Gwnaeth RD hefyd hysbysu aelodau nad oes unrhyw ddeddfwriaeth ar hyn o bryd mewn perthynas â derbyn Ffoaduriaid yn y 'Polisi Derbyn' presennol

## **8. Y diweddaraf ar adolygu dalgylchoedd**

Rhoddodd RD wybod i'r aelodau bod yr ALL wedi ystyried goblygiadau posibl dileu/adolygu ffiniau dalgylch yn y dyfodol agos. Drwy ddefnyddio'r dull hwn ni fydd angen i'r ALL nodi dalgylchoedd ar gyfer ysgol, lle gall nifer y plant sy'n byw yn y dalgylch fod yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael. Esboniodd RD wrth aelodau y gall plant sy'n byw agosaf i'r ysgol y gofynnir amdani, drwy ddefnyddio'r dull hwn, gael y flaenoriaeth uchaf ar gyfer lleoedd ysgolion. Gwnaeth RD hefyd nodi y byddai'r pellter statudol ar gyfer cludiant yn parhau yr un peth, sef 2 filltir ar gyfer Cynradd a 3 milltir ar gyfer Uwchradd. Byddai'r meini prawf yn nodi 'plant lle mae'r ysgol ddewisol yw'r 'ysgol addas' agosaf ar hyd y llwybr cerdded byrraf, o ran oedran y plentyn a dewis iaith rhiant neu ddewis ffydd (ar gyfer ysgolion sy'n gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru).

Nododd RD wrth aelodau fod Sir Ddinbych wedi dileu'r meini prawf dalgylch yn eu polisi derbyn. Nododd JT y byddai'n ddiddorol cael gwybod gan Sir Ddinbych a yw'r apeliadau derbyn wedi codi ers cymhwyso'r maen prawf hwn. Rhoddodd RD wybod i'r aelodau y bydd yr awdurdod yn profi data erbyn mis Hydref a bydd yn rhoi'r diweddaraf i aelodau yn y cyfarfod ym mis Hydref a'r cynharaf y gallai hyn ddod i rym fyddai 2020/21.

## **9. Trefnu dyddiadau ar gyfer y dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y 'Fforwm Derbyn'**

MJ i gysylltu ag Aelodau i drefnu cyfarfod nesaf y 'Fforwm Derbyn' ym mis Hydref.

## **10. Unrhyw fater arall**

Nid oedd mater arall

## **11. Daeth y cyfarfod i ben am 11.00am**